

Pentecost 2019

Ar achlysur y Pentecost yn Actau 2 clywodd y torfeydd oedd yn ymweld â Jerwsalem dwr o bobl yn siarad mewn ieithoedd dieithr, ieithoedd gwahanol i'w hieithoedd bob dydd eu hunain. Caniataodd hyn i'r ymwelwyr glywed neges yr Efengyl a bregethodd Pedr iddynt. Er bod hyn yn bwyslais rhyfeddol ni ddatblygwyd y thema hon yn llyfr yr Actau.


Ond o hyn allan roedd popeth wedi ei newid mewn ffordd ddramatig.

Gwnaed Pedr ac Ioan yn hyderus ac yn eofn, a chafodd gŵr cloff ei iacháu, cawsant eu nerthu i dystiolaethu pan gawsant eu llusgo gerbron y Sanhedrin, ac yn ôl yr hyn a ddarllenwn roedd y credinwyr yn rhannu eu heiddo yn hael gydag eraill. Dyma effeithiau dyfodiad yr Ysbryd Glân. Parhaodd y

dylanwad drwy Steffan ac ym mhregethiad yr efengyl yn Samaria trwy Phylip. Cafodd eunuchiaid oedd yn cael eu gwahardd rhag rhannu yng nghwmni pobl yr Arglwydd yn Deuteronomium 21 eu cynnwys ac fe gafodd yr Ethiopiad oedd ar ei daith ei fedyddio gan Phylip mewn man diarffordd.

Ond i mi, yr hanesyn rhyfeddaf yw'r hanes am Pedr yn cael ei alw trwy weledigaeth i fynd at Cornelius. Darllenwn fod y weledigaeth wedi dod i Pedr a'i fod wedi deall bod y pethau hynny roedd ef wedi credu ar hyd ei oes eu bod yn aflan, ac felly na ddylai gyffwrdd â nhw, mewn gwirionedd yn lân. Deallodd lawnder arwyddocâd hyn pan aeth i gartref cenedl-ddyn Rhufeinig, Cornelius.

(parhad ar dudalen 2)



Llun: Gerd Altmann o Pixabay

Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oberwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oberwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. Dyna pam y dywedais ei fod yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Ioan 16:13-15

Darganfod Addewidion

ADDEWID Y PENTECOST

Iesu roes addewid hyfryd,
Cyn ei fynd i ben ei daith,
Yr anfonai ef ei Ysbryd
I roi bywyd yn ei waith
Dawn yr Ysbryd
Digon i'r disgyblion fu.

Mae'n debyg fod y disgyblion yn mwynhau bod yng nghwmni'r Iesu ar ôl ei atgyfodiad, ac erbyn hyn wedi dod i ddeall pethau'n well, gan Ei fod yn siarad â nhw am yr hyn oedd Teyrnas Dduw yn ei olygu. Ac ynghanol y sgwrsio yma, yn dweud, "Bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi i ddweud amdana i wrth bawb – yn Jerwsalem, Jwdea, yn Samaria a thros y byd i gyd."

Wedi'r cwbl oedden nhw wedi bod

drwyddo, wedi ei weld yn marw, wedi cael ei gwmni ar ôl yr atgyfodiad, 'roedd hyn yn rhywbeth cyffrous iawn, fod yr Ysbryd Glân yn mynd i ddisgyn arnyn nhw, ac am eu helpu nhw i sôn am yr hyn oeddynt wedi ei weld a chlywed yn ei gwmni. Cyn hynny byddent wedi gorfod ffarwelio ag o wrth iddo esgyn i'r nefoedd. Cerdded yn ôl i Jerwsalem wnaeth y disgyblion a mynd yn ôl i'r oruwch ystafell. I be? I weddi hefo'i gilydd.

Pan ddaeth yr Ysbryd arnyn nhw yr oeddynt yn "gytûn yn yr un lle" Dyna'r wers i ni heddiw. Ddaw Dydd y Pentecost byth eto, mae o wedi bod. Awn ni byth yn ôl i'r diwrnod hwnnw, ond fe fydd Duw yn tywallt ei Ysbryd eto, fel mae wedi gwneud lawer gwaith o'r blaen. Ond mae'n rhaid i ni fod fel y

disgyblion yma yn gytûn, o'r un meddwl, a'r un dyhead. Mae'n rhaid cael undod.


Rhaid i ni fod yn un mewn pwrpas, sef ein bod yn aros am Dduw yn weddigar, hefo'n gilydd fel tîm. Mae gennym i gyd wahanol ddoniau, a bydd yr Ysbryd yn eu cyffwrdd mewn gwahanol ffyrdd. Meddai Paul wrth y Corinthiaid "Mae gwahanol ddoniau, ond yr Ysbryd sy'n rhoi pob un. Mae ffyrdd gwahanol o wasanaethu ond dim ond un Arglwydd sydd." (1 Cor. 12 4-5)

Unwn mewn gweddi, fel y disgyblion. Mae Iesu Grist wedi ein huno gyda'n gilydd. Gweddiwn dros ein gilydd ac am ein gilydd.

Rhaid i ni fod o'r un meddwl, y dyhead yma am weld yr Ysbryd yn disgyn

(parhad ar dudalen 7)

Blaenor Cudd



Dych chi'n cofio i'n cyfarfod swyddogion y tro diwethaf fynd ychydig yn boeth. Yn arbennig pan awgrymwyd y dylid cwtglo ar oriau a chyflogaeth gweinidogion yr enwad. Penderfynwyd anfon gair i'r brif swyddfa i geisio arweiniad a chynngor.

Ac fe gyrhaeddodd ateb o Bencadlys yr Enwad ac fe'i rhoddwyd yn fy llaw gan ysgrifennydd y capel:

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghapel Nunlle,

Diolch am eich ymholiad ynglŷn â thorri oriau a swydd ddisgrifiad eich gweinidog. Mae eich awgrym yn awgrymu un model "hunan gynhaliol" hanesyddol – ond nid yr unig fodel o weinidogaeth Gristnogol. Cydnabyddwn mai

esiampyl Crist a Paul yw sail ein ffydd a'n diwinyddiaeth – a chydnabyddwn fod y ddau ohonynt yn gwybod beth oedd cynnal eu hunain drwy waith llaw.

Ond cofiwch hefyd am Pedr a brodyr yr Arglwydd (a'u gwragedd) a fu'n bysgotwyr ayyb, oedd yn ôl yr epistolau yn derbyn cynhaliath yr Eglwysi. Awgrymwn fod gweinidogaethau teithiol yn haeddu eich cefnogaeth ariannol er mwyn caniatáu cyflogaeth llawn amser. Cydnabyddwn fod lle yn lleol i weinidogaethau rhan amser. Yn wir mae gennym drefniadaeth fel Corff sy'n caniatáu'r math yma o weinidogaeth. Y gwir yw nad oes modd canfod un model Beiblaidd penodol – heb ddyfynnu'r Beibl cyfan! Ac ar hyn o bryd mae egwyddor gan ein Cyfundeb bod eglwysi cryfach a buddsoddiadau yn caniatáu gweinidogaeth mewn ardaloedd na fyddent ar eu pennau eu hunain yn medru cynnal gweinidogaeth o unrhyw fath.

Diau y bydd llawer yn gwrthwynebu unrhyw newid. Ond wrth wynebu'r dyfodol mae'n wir, na allwn fforddio beidio â wynebu realiti ein hamgylchiadau presennol. Ond fel un Corff byddwn yn ceisio symud ymlaen gyda'n gilydd.

Gofynnwn i chwi fel Eglwys ymroi i geisio yn gyntaf arweiniad yr Ysbryd Glân cyn gweithredu ymhellach. Dilynwch Ei arweiniad Ef ac mi ddaw popeth yn eglur.

Gwyddom y gall yr ymarfer o geisio'r Arglwydd gymryd peth amser!

Byddwn yn falch o dderbyn eich sylwadau wedi i chi neilltuo amser digonol i geisio gras gwenau'r Iôr.

Yn gywir a.y.y.b,
Ceidwaid Cyflogedig Y Drefn

Nid oedd yr uchod yn gwneud llawer o synnwyr i mi.

Pwy oedd Yr Ysbryd Glân? Nid oedd cofnod o fod wedi ceisio'i bresenoldeb wedi ei nodi ar gofnodion ein cyfarfodydd swyddogion, nac mewn unrhyw gofnod o'n llysoedd Cyfundebol chwaith! Cofiais wedyn i ni ganu "Ysbryd y Tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni. Pŵg ni, trin, golch ni, cod ni...". Ond a dweud y gwir doedd o ddim yn swnio'n beth dymunol iawn. A dweud y gwir roedd yn swnio'n fusnes poenus braidd, mwy fel trin metal na thrin person!

O wel, doedd dim amdani ond ymdroi unwaith yn rhagor tuag at gyfarfod misol Swyddogion Y Capel a gweld beth a ddeuai o'n trafodaethau.

Agorodd ein Gweinidog y cyfarfod. Cyn i ni ganu'r emyn, meddai, "dwi wedi gweld y llythyr fydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor heno. Sylweddolais nad oeddem fel cynulleidfa wedi rhoi ein bryd ar geisio presenoldeb yr Ysbryd Glân. Felly gadewch i ni ganu:

"O Dduw rho i'm dy Ysbryd...".

Teimlais ysgytwad mewnol ond llwyddais i'w dawelu.

Nid cyfarfod blaenoriaid yw'r lle i ddangos emosiwn.

Dechreuodd ein Gweinidog trwy wlo a chyfaddef: "Rwyf wedi bod ar adegau yn hunanol ac ar brydiau yn hunan gyfiawn. Rwy'n gweld fy mod wedi derbyn Y Drefn fel y mae, ein harferion crefyddol ac nad ydym wedi rhoi'r flaenoriaeth i estyn allan i geisio cyrraedd pobl y dref. Maddeuwch i mi – rwy'n ymwybodol iawn o'm methiannau. Gobeithio ca' i, gobeithio y cawn ni, gyfle arall er mwyn lesu, ein Harglwydd."

Tawelodd pawb; nid oedd ymateb.

Teimlais dosturi mawr drosto wrth weld ei wyneb trist ond gobeithiol.

Penderfynais yn y fan a'r lle y baswn yn ymuno gydag o yn yr ymgyrch fawr o blaid Efyngyl Iesu Grist. Baswn yn fodlon rhoi hanner fy eiddo a hanner fy incwm i'r nod a'r weledigaeth hon.

Wedi i mi fynegi hyn, ac wedi ennyd o dawelwch difrifol, datganodd ein hysgrifenyddes bod Ysbryd tragwyddol Dduw ar waith ac y dylem ymroi i fis o weddi ac ymryd er mwyn eglurdeb am y ffordd ymlaen.

Gyda rhyddhad, os nad gyda dealltwriaeth lawn o beth yr oeddem yn ei addo, cytunodd y swyddogion yn frwd, yn synhwyro efalle bod y cwlwm cariad oedd yn ein cadw ynghyd yn ein clymu eto.

Pentecost 2019 (parhad o dudalen 1)

Roedd digonedd o resymau i Pedr deimlo'n euog a ffoi filltir neu ddwy i'r cyfeiriad arall! Wedi'r cyfan roedd Cornelius yn swyddog yn y fyddin oedd wedi gorchfygu ei genedl, yn genedl-ddyn fyddai wedi bwyta bwydydd oedd wedi eu gwahardd iddo ef fel lldew. Dyma'r fath o berson na fyddai Pedr, gynt, wedi bod ag unrhyw amynedd tuag ato o gwbl. Ond aeth Pedr wedi'r cyfnewidiad rhyfeddol hwn, rhyw fath o drôedigaeth yn ei fywyd, a rhannodd neges am Iesu gydag ef ac eistedd i gyd-fwyta gydag ef a'i deulu a'i bedyddio.

Wedi dychwelyd at yr Eglwys yn Jerwsalem a rhannu'r adroddiad am ei ymweliad, a'r hyn ddigwyddodd yn nhŷ'r cenedl-ddyn Cornelius, ataliodd y rhai oedd yn feirniadol o Pedr eu beirniadaeth.

I mi dyma lle mae profiad rhyfeddol o'r Ysbryd Glân a welir yn Actau 2 yn ein harwain. Dyma oedd un o'r cyfnewidiadau mwyaf rhyfeddol i'r Cristnogion cynnar hyn. Cafodd eu gwerthoedd, gwerthoedd a fu gynt iddynt yn werthofedd digyfnewid, eu troi ben i waered. Gwnaed y rhai a fyddent gynt wedi eu casáu a'i hofni yn awr yn wrthrychau eu cariad.

Dyma wers i ninnau hefyd. Mae angen i ni fod yn onest wrth i ni holi ein hunain am ein hagweddau tuag at y byd a thuag at y bobl sydd o'n cwmpas; i holi ein hunain am unrhyw ragfarnau sy'n dal i nythu yn ein calonnau. A gafodd rhagfarnau am bobl sydd o'n cwmpas, a'r dadleuon fyddai am wahardd neu gau pobl eraill allan o'n cymdeithas, le i gartrefu ynom?

Neu a ydym yn adnabod yr Un Ysbryd a ddwedodd wrth Pedr, "Paid ag ystyried yn aflan unrhyw beth y mae'r Arglwydd wedi ei alw'n lân?" Yr un Ysbryd ydyw a arweiniodd Phylip i fedyddio Eunuch o Ethiopiad pan fyddai gynt efallai wedi dyfynnu Deuteronomium 23:1 a dweud, 'Mae'n ddrwg gen i ffrind, ond wyt ti'n rhy aflan i gael lle yn Nhŷ Dduw.'

Byddwn yn dathlu'r Pentecost ar Fehefin 9fed eleni. Ond nid digwyddiad un diwrnod ydy'r Pentecost, ond symudiad o'r Ysbryd sy'n anrffod yn trawsffurfio sut yr ydym yn meddwl am bobl, am angen ein byd, gan ein galluogi i'w gweld yng ngoleuni Crist ac nid drwy sbectol marweidd-dra a difaterwch y byd.

**Brian Matthews,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.**



Wedi ei gyfraniad i'r 4 Tudalen Gydenwadol mae'r Dr. D. Ben Rees yn ymhelaethu ar agweddau o'r ysgrif flaenorol. Gadewch i ni wybod os ydych yn cytuno ag ef!

Lle ydan ni wedi colli'n pobl?

Dyna sydd yn fy rhoeni yn fy hen ddyddiau.

Bûm yn Weinidog yr efengyl ers 57 mlynedd ac rwy'n sylweddoli bellach bod hi'n ddydd o brysur bwysu a'n bod o fewn pymtheg mlynedd i'n diflaniad fel enwad Presbyteriaidd.

2034

Ie, y flwyddyn 2034 yw'r flwyddyn dyngedfennol. Ond cofier fod aml un yn dweud y bydd ein byd ar ben yn 2030 oherwydd cyflwr yr hinsawdd os na wnawn ni ddeffro. Roedd darllen Hanes yr Achos o Henaduriaeth Môn a gyflwynwyd i Sasiwn y Gogledd ar 9-10 o Ebrill yn ddigon i sobri'r Cyfundebwr mwyaf yn ein plith – ein Hysgrifennydd Cyffredinol mae'n debyg yw hwnnw!

Chwalfa

Gwelais y chwalfa.

Bûm yn rhan ohono. Gweinidogion da yn cwplu ei gweinidogaeth ac wedi bod yn gofalu am bum gofalaeth o

Forgannwg i Fôn a bellach dim un o'r eglwysi hynny ar dir y byw. Trasiedi i'w goffadwriaeth.

Beth ddigwyddodd a phryd?

Mi wn na fu'r Ddwy Ryfel byd yn help o gwbl ond eto ar ôl yr Ail Ryfel Byd yr oedd cynulleidfaoedd da yn yr eglwysi a gofiau fel Bethesda, Llanddewi Brefi a Bwlchgwynt, Tregaron. Gwelais ym mro fy mebyd gyfeillion bore oes yn rhoddi'r gorau iddi yn y saith degau. Ond credaf mai rhywle yn y blynyddoedd hynny o 1975 i 1980 y dechreuodd y cadw draw o ddiffri, y cefnogi o hirbell, anfon siec diwedd blwyddyn a pheidio mynychu Ysgol Sul nac oedfa na chymdeithas lenyddol. Daeth hi yn anoddach fyth i gynnal cymdeithasau a denu pobl i oedfaon. A'r tristwch pennaf yw ein bod ni yn derbyn y sefyllfa a bod ein cyd-aelodau nas gwelwn hwy fyth o fewn y capeli yn rhy swil i ddweud wrthym pam ei bod yn aros adref ar Ddydd yr Arglwydd yn lle cefnogi eu cyd aelodau o'r Un Corff.

Argyfwng Ffydd?

Go brin y mae argyfwng ffydd yw e gan eu bod yn codi eu llaw a dweud eu bod yn credu yn yr Efengyl ac yn dal eu haelodaeth ar lyfrau'r Eglwys.

Byddwn i yn dweud eu bod heb gael eu hyfforddi yn ddigonol yn y Dosbarthiadau Derbyn (gennyf fi a phob gweinidog Presbyteriaidd arall) i sylweddoli fod perthyn i gapel yn faint aruthrol, yn rhan o Gorff Crist ar y ddaear. Felly disgyblaeth bersonol yw'r diffyg. Methu sylweddoli, na deall, fod Dydd yr Arglwydd i ddod o flaen popeth arall a galwad yr Eglwys am i'r credinwyr addoli Duw. I wneud hynny y mae angen yn gyntaf **ufudd-dod**, yn ail **ymgysegrïad**, ac yn drydydd **teyrngarwch** i'r capel lle mae eich gwreiddiau a'ch teulu wedi bod

yn addoli. Fel yr wyf fi yn cefnogi plaid wleidyddol, tîm pêl-droed arbennig, cymdeithasau hanes a llenyddiaeth, y mae angen cefnogi Bethel a Seion a Tabernacl, y blychau ennaint chwedl y bardd dewr T. Rowland Hughes.

Cadw Draw

Ar hyd y blynyddoedd poen meddwl oedd gwasanaethu Capeli mwyaf llewyrchus o'n heiddo a gweld o leiaf hanner y blaenoriaid yn cadw draw o oedfa hwyr. Ac yn dilyn yr esiampl wael gan yr arweinwyr hyn gwelid hanner y gynulleidfa a mwy yn cadw draw o oedfa'r hwyr. Ac erbyn hyn llond dwrn sydd yn cynnal oedfa'r hwyr. Meddyliwch o ddiffri'r esiampl wael a rydd ein harweinwyr lleyg i gennad a deithiodd atynt gan milltir a mwy. Awgryma y cadw draw ei fod ef yn pregethu fel brân neu dylluan ac nad yw yn haeddu cael cefnogaeth. Pam fod y blaenoriaid mewn cymaint o gapeli yn bodloni ar un oedfa a chyfarfod un waith?

Diffyg Arweiniad?

Credaf yn gydwybodol bod cynulleidfa ran amlaf yn dilyn arweiniad y gweinidog a'r blaenoriaid. Os yw'r Gweinidog yn rhoddi arweiniad mae siawns dda y bydd i eraill ei ddilyn. Ac eto, ni chefais yr ateb yr wyf yn chwilio amdano, yr ateb sy'n egluro pam y cefnu mawr a diffyg cefnogaeth aelodau a'r gymuned.

Sylwaf fod y cymunedau Cymraeg YN DDIGON PAROD I GAPEL DDIFLANNU OND NID Y TAFARNAU!

Dônt at ei gilydd i gadw tafarn ar agor. Da iawn!

Taro'r Post?

Ond ffrindiau, mae ein capel wedi gwneud llawer mwy dros Gymreictod, moeseg, diwylliant a'r bywyd gwell na unrhyw dafarn er fy mharch i'r tafarnwyr y gwn i amdanynt sydd yn halen y ddaear. Cyffyrddais a'r testun ond disgwyliaf yn awr y bydd aml i bwt wedi ei anfon at *Taro'r Post* yn y Goleuad. Gobeithio y cawn oleuni pellach er mwyn arbed tranc aml un o'r blychau ennaint cyn 2034!

Darganfod Addewidion (parhad o dudalen 1)

arnom unwaith eto, a sylweddoli na fydd pethau byth yr un fath wedyn. Ganwyd yr Eglwys fore ar ôl Dydd y Pentecost, ac aeth Efengyl Iesu Grist dros y byd. Wedi eu llenwi â'r Ysbryd ac wrth ddweud am Iesu bu'n rhaid iddynt wynebu amserau anodd, eu cam-drin a'u lladd.

Efallai na fydd pethau mor ddrwg â hynny arnom ni, ond bydd bywyd yn newid. "Gadewch i'r Ysbryd Glân eich llenwi a'ch rheoli chi, canwch salmau ac emynau a chaneuon ysbrydol i'ch gilydd. Canwch fawl yn frwd i'r Arglwydd Diolchwch i Dduw y Tad am bopeth bob amser o achos y cwbl y mae'r Arglwydd Iesu Grist wedi ei wneud." (Eff 5:18-20) Ewyllys Duw ydyw ein bod yn cael ein llenwi, â'r Ysbryd.

Ydym ni'n barod am newid o ddiffrif? Pan ddaw'r ysbryd bydd yn ei rheoli ni,

ac yna byddwn yn barod i fod yn dystion. Wnaiff O ddim ein llenwi i fod yn dawel; allwn ni ddim bod yn dawel wedyn; byddwn eisiau dweud y newyddion da wrth bawb.

Mae hi mor hawdd bod yn fodlon ei byd, ac yn ddigynnwrf, a heb ddyhead am newid. Nid felly'r disgyblion, wedi cael addewid am yr Ysbryd, 'roeddynt yn gytûn, mewn gweddi, mewn pwrpas, mewn nerth, dilynwn eu hesiampl, a byddwn ninnau'n gytûn.

O lân Ysbryd yr addewid, Tyred yn dy ddawn di-lyth, Mae dy ras yn ddigynnewid, Gweithia'n rymus yn ein plith Deffro'r Eglwys Achub, argyhoedda'r byd.

(Caneuon Ffydd, 576)

Olwen Williams

CALENDR Y GOLEUAD

Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy. Seion Ro-wen, nos FERCHER, Mehefin 12fed am 6.30 (Sylwch y newid yn y dyddiad). Llywydd: Mrs Eirian Jones, Carrog. Anerchiad gan Y Parch Brian Matthews, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Pwyllgor gwaith nos lau Mehefin 6ed yn Seion Llanrwst, am 7.00.

Henaduriaeth Môn. Disgwylfa, Gaerwen, Dydd Mawrth, 25 Mehefin, am 3.00 o'r gloch, a chyfarfod cyhoeddus llongyfarch blaenoriaid am 6.30 o'r gloch. Bydd Pwyllgor Gwaith yr Henaduriaeth nos Fercher, 19 Mehefin, am 7 o'r gloch yn Lôn y Felin, Llangedfni.